## Cyflwyniad i'r Deunyddiau Cymorth Ymarferol

1. Mae'r fideo hwn yn rhoi cyflwyniad i ddeunyddiau cymorth ymarferol sydd wedi'u datblygu o waith a syniadau'r rhai sy'n ymwneud ag ail gam Prosiect Camau i'r Dyfodol.

Mae'r deunyddiau newydd hyn wedi'u cynllunio i gefnogi cyd-ddealltwriaeth system gyfan o Gwricwlwm i Gymru. Maent yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu â'r prosesau a'r adnoddau a grëwyd yn ail gam y prosiect. Roedd y cyfranogwyr eisiau creu deunyddiau cymorth a fyddai'n ystyrlon, yn hylaw ac yn ddefnyddiadwy gan ymarferwyr yn eu lleoliadau proffesiynol eu hunain.

Byddwn yn egluro'r prosiect yn fyr cyn mynd ymlaen i esbonio'r meddylfryd y tu ôl i greu'r deunyddiau cymorth.

2. Mae prosiect Camau i'r Dyfodol yn brosiect tair blynedd sydd wedi'i gynllunio i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm drwy weithio ar y cyd ag ymarferwyr a gweithwyr addysg broffesiynol eraill o bob rhan o Gymru. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r prosiect hwn yn cynnwys partneriaeth rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a Phrifysgol Glasgow gan ddylunio ar y cyd â phartneriaid addysg.

Yng ngham 1 y prosiect, fe wnaethom dri pheth.

- Fe wnaethom archwilio'r hyn y gallem ei ddysgu o'r llenyddiaeth bresennol am y perthnasoedd rhwng cwricwlwm, asesu, addysgeg a chynnydd dysgu.
- Fe wnaethom ddatblygu ymagwedd at ddylunio ar y cyd a fyddai'n cefnogi gwahanol bobl o bob rhan o'r system i ddod at ei gilydd a **chydweithio yng ngham 2 y prosiect.**
- A chawsom sgyrsiau ag athrawon, ymarferwyr, rhanbarthau, a phartneriaid a sefydliadau haen ganol eraill, i ddeall sut yr oedd pobl yn agosáu at wireddu Cwricwlwm i Gymru.

Roedd Cam 2 yn canolbwyntio ar **waith grŵp dylunio ar y cyd** a ddaeth â **67** o weithwyr addysg broffesiynol ynghyd o bob rhan o'r system. Pwrpas y grŵp hwn oedd meddwl am rai o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwireddu Cwricwlwm i Gymru. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys arbenigedd cyflenwol, gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, aelodau o Lywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol a phartneriaethau, Cymwysterau Cymru, Estyn ac aelodau o Dîm Prosiect Camau i'r Dyfodol.

3. Felly, beth wnaeth y grŵp dylunio ar y cyd mewn gwirionedd?

- Cyfarfu aelodau'r grŵp Dylunio ar y cyd trwy gyfres o ddigwyddiadau ar-lein a diwrnod cyfan, wyneb yn wyneb, dros gyfnod o 7 mis.

- Yn ystod y cyfnod hwn, buont yn meddwl yn sylweddol am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn eu cyd-destunau lleol ac yn genedlaethol. **Ffurfiodd y grŵp dylunio ar y cyd yn is-grwpiau llai i archwilio meysydd penodol a oedd, yn eu barn nhw, yn bwysig i'w lleoliadau eu hunain, ac i'r system yn ehangach. Fel rhan o hyn, roedd pob is-grŵp yn meddwl am unrhyw heriau fel 'clymau' i'w harchwilio a'u datrys er mwyn symud ymlaen â chynllunio'r cwricwlwm yn ymarferol.**
- **Defnyddiwyd ystod o wahanol ddulliau o fewn grwpiau megis mapiau meddwl, byrddau jam, cwestiynau myfyriol, ac awgrymiadau ar gyfer meddwl pellach.**
- **Bu grwpiau hefyd yn rhannu syniadau â grwpiau eraill a ofynnodd gwestiynau ac a wnaeth awgrymiadau i herio meddylfryd. Gofynnodd yr ymarferwyr a gymerodd ran yn y grwpiau i dîm Camau ddarparu theori ac ymchwil ychwanegol i helpu i egluro cynllun y cwricwlwm a datrys y clymau yr oeddent yn gweithio drwyddynt.**
- Yn ogystal â hyn, fe wnaeth cyfres o bedair sgwrs rhwydwaith cenedlaethol ganiatáu i feddyliau gael eu rhannu ag eraill a'u mireinio.
- Wrth fyfyrio ar y broses dylunio ar y cyd, dywedodd un cyfranogwr: 'mae wedi fy herio i feddwl ... beth ydw i'n dal gafael arno? A ydw i'n edrych yn ôl yn hytrach nag edrych ymlaen at ble y dylen ni fod yn mynd?' Dywedodd un arall: 'Roedd yn broses ddiddorol iawn i fod yn rhan ohono... Roedd y lefel honno o ymchwil ac ymgysylltu yn ddiddorol iawn, iawn… ac os yw'n rhywbeth y gallaf fynd i mewn iddo, gallaf ymchwilio a gallaf ddod o hyd i enghreifftiau gwahanol ac yna dychwelyd a'i gysylltu â'm arfer.'

4. Felly, beth ddangosodd y broses dylunio ar y cyd?

Dangosodd y broses fod Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddeall mewn ffyrdd gwahanol gan aelodau'r grŵp dylunio ar y cyd. Byddwn yn esbonio mwy am y gwahanol ddealltwriaethau hyn yn Adran 1, ond ar hyn o bryd yr hyn a olygai hyn oedd eu bod hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth wahanol o sut i wireddu Cwricwlwm i Gymru yn ymarferol. Roedd hyn yn arwyddocaol oherwydd bod rhai o'r ffyrdd hyn o ddeall wedi'u halinio'n fwy nag eraill â Chwricwlwm i Gymru fel cwricwlwm a oedd yn cael ei arwain gan bwrpas.

**Fel y dywedodd un cyfranogwr, a hynny o gymorth, am y broses o ddeall a gwireddu Cwricwlwm i Gymru:** ''Rwy'n meddwl ei bod yn ddiogel dweud nad yw'r daith i Gwricwlwm i Gymru wedi bod yn un llinol, nac ydy? Y mae ym mhob agwedd, onid ydyw? Rydych chi wedi bod ymlaen ac mae angen i chi fynd yn ôl ac ailymweld…' **Felly mae'r syniad o fyfyrio ac ailystyried yn un defnyddiol wrth ystyried sut mae ymarferwyr yn gwneud synnwyr o gwricwla newydd. Dyma beth a elwir yn gwneud synnwyr.**

5.

- Yn ystod cam 2, daeth y **cyfranogwyr i gydnabod** bod y broses dylunio ar y cyd yn bwysig ar gyfer cefnogi'r broses barhaus o wneud synnwyr a datblygu cyd-ddealltwriaeth am Gwricwlwm i Gymru.
- Mae gwneud synnwyr yn rhan bwysig o wireddu'r cwricwlwm a ddisgrifiwyd gan Dolfing et al. (2020, t.129) fel 'proses weithredol, wybyddol, ac emosiynol lle mae person yn ceisio ffitio agweddau a gofynion newydd i wybodaeth a chredoau sy'n bodoli.' Mae gwneud synnwyr yn broses bwysig mewn unrhyw ddiwygiad cymhleth neu raddfa fawr a gall ddigwydd dros nifer o flynyddoedd.
- Roedd y cyfranogwyr o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gwireddu'r cwricwlwm pe gellid datblygu deunyddiau i gefnogi ymarferwyr eraill i wneud synnwyr parhaus eu hunain.
- Wrth i'r broses dylunio ar y cyd esblygu, datblygodd syniadau'r cyfranogwyr am natur y deunyddiau hyn hefyd. **Er enghraifft, esboniodd un cyfranogwr sut yr oedd wedi meddwl yn ofalus a ddylid gorffen cam 2 gyda chynnyrch megis enghreifftiau neu astudiaethau achos, neu orffen gyda phroses y gallai gweithwyr proffesiynol ymgysylltu â hi. Soniodd un arall am bwysigrwydd peidio â lleihau pethau i restrau gwirio a'r angen i annog gweithwyr proffesiynol i fynd 'yn ôl at hanfod y dysgu' wrth feddwl am Gwricwlwm i Gymru', i feddwl 'pam mae'n bwysig bod ein dysgwyr yn gwybod hynny? Beth fydd hynny'n eu galluogi i'w wneud? Soniodd un arall am fod eisiau creu rhywbeth i helpu ymarferwyr i fyfyrio 'ond yn eich lleoliad... gwerthuswch yr hyn sydd gennych chi, meddyliwch amdano.'**
- Penderfynodd y cyfranogwyr mai'r broses dylunio ar y cyd yw'r hyn y dylid ei rannu, yn hytrach na chreu set o adnoddau annibynnol neu enghreifftiau.

6. Canlyniad y broses dylunio ar y cyd oedd creu'r deunyddiau cymorth ymarferol hyn, a ddatblygwyd o waith a meddylfryd y grŵp dylunio ar y cyd ynghyd â thystiolaeth ryngwladol a gasglwyd mewn ymateb i'r meddylfryd hwn.

Fel y dywedodd un cyfranogwr: '[rydym] eisiau rhannu ein taith ag eraill yn awr, byddwn yn dweud a'u cael i feddwl am y pethau yr ydym wedi dod ar eu traws.'

Mae'r deunyddiau cymorth hyn wedi'u creu i'w defnyddio gan unigolion, ysgolion a chlystyrau. Dywedodd cyfranogwr arall mai'r syniad oedd i'r deunyddiau fod yno i'w 'cymryd i ffwrdd' a chefnogi meddwl ar bob lefel.

7. Mae'r deunyddiau cymorth ymarferol wedi'u rhannu'n dair prif adran, fel y nodir ar ben y diagram trosolwg hwn. Mae'r adrannau hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio yn y drefn y'u cyflwynir yma, gydag un adran yn adeiladu o'r un olaf. Enw'r adran gyntaf yw: 'Deall Cwricwlwm i Gymru'. Gelwir yr ail yn: 'Asesu a chynnydd mewn cwricwlwm a arweinir gan bwrpas' a gelwir y trydydd yn: 'Gwireddu'r cwricwlwm: o gyd-destunau cenedlaethol i rai lleol'.

Mae gan bob adran strwythur tebyg. Maen nhw’n dechrau trwy archwilio rhai syniadau allweddol, wedyn maen nhw’n rhoi cyfleoedd i archwilio pethau ymhellach, cyn rhannu deunyddiau y gellir eu defnyddio i helpu i roi meddwl ar waith.

Mae’r deunyddiau’n dechrau drwy ganolbwyntio ar Gwricwlwm i Gymru a pha fodel cwricwlwm y mae’n cyd-fynd orau ag ef. Heb ddeall hyn yn gyntaf, daw'n anodd gwybod sut i wireddu'r cwricwlwm yn ymarferol. Mae Seminar 1 yn archwilio’n llawnach yr hyn a olygir wrth ddull proses o ddylunio’r cwricwlwm cyn i ymarferwyr gael eu cefnogi i fyfyrio ar hyn o ran eu harfer eu hunain.

Yna mae Adran 2 yn ystyried beth mae dull proses yn ei olygu ar gyfer meddwl am asesu a chynnydd. Yn yr adran olaf, rydym yn archwilio’r hyn y mae tystiolaeth ryngwladol yn ei ddweud wrthym am wireddu’r cwricwlwm ac yn cysylltu hyn â rhai o leisiau’r rhai sy’n ymwneud â’r grŵp dylunio ar y cyd.

Mae amrywiaeth o ffyrdd o ymgysylltu â'r deunyddiau hyn. Rydym yn darparu mewnbynnau fideo, crynodebau y gellir eu lawrlwytho a thaflenni adnoddau, trawsgrifiadau a chwestiynau adfyfyriol sy’n eich galluogi i ddefnyddio’r syniadau a’r dulliau hyn fel rhan o’r broses barhaus o wireddu’r cwricwlwm yn eich lleoliadau eich hun.